cff

TYFU BUSNES
GYDAG ARLOESEDD

FARMING connect
cyswllt FFERMIO

**RHIFYN 6** - Tachwedd / Rhagfyr 2016




## GLYNLLIFON

Moch proffidiol yn uned foch newydd safle Arloesedd Cyswllt Ffermio.

## MESUR I REOLI

Cyswllt Ffermio yn lansio agwedd newydd i feincnodi i fusnesau fferm yng Nghymru yn y Ffair Aeaf.




Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig: Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig
European Agricultural Fund for Rural Development: Europe Investing in Rural Areas

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Tudalen 7.
Swyddog Technegol
**Catherine Nakielny**



Tudalen 14.
**Digwyddiadau**
Beth sy'n mynd ymlaen yn eich ardal chi...

# CYFLWYNIAD



CROESO i chweched rhifyn cyhoeddiad technegol Cyswllt Ffermio. Yma yn Tyreglwys, un o'r 12 safle Cyswllt Ffermio yr ydym yn gwneud y gorau o ddyddiau olaf yr hydref, gyda phatrymau'r gaeaf yn awr ar waith a llai o oriau o olau dydd i gyflawni'r holl dasgau dyddiol.

Rydym yn falch o gofnodi iddi fod yn flwyddyn lwyddiannus iawn yng nghylch y sioe, gan ennill pencampwriaeth yr heffrod Ayrshire yn y Sioe Frenhinol. Roedd y sioe loeau o bob brîd ym Malvern yn llwyddiannus iawn i ni hefyd, a bu Gethin, ein mab yn cystadlu yno ar drin lloeau am y tro cyntaf ac fe wnaeth yn rhyfeddol, gan ddod yn unfed ar ddeg allan o 22.

Mae'r buchod yn godro yn dda ac rydym ar y trywydd iawn i gynnal ein cyfartaledd o ran cynnyrch blynyddol o 8,500 litr ac yn cael llawer mwy o borthiant nag arfer. Yr hydref hwn rydym wedi hau glaswellt treuliadwy iawn, gan anelu at wella'r perfformiad oddi ar borthiant y flwyddyn nesaf, ac rydym yn treialu defnyddio rhonwellt yn un gwndwn. Mae'r fferm yn eithaf gwlyb o ran pori, ond rydym yn benderfynol o geisio cael mwy o'r glaswellt a byddwn yn ei fesur am y tro cyntaf yn ystod tymor pori 2017.

Fel Fferm Arddangos rydym yn treialu Therapi Dethol i Fuchod Sych, hyd yn hyn, nid yn unig mae'r treial wedi arbed arian i ni ond rydym hefyd yn cyrraedd ein targedau o ran gwella iechyd y gwartheg a llai o fastitis trwy ddefnydd cynaliadwy o wrthfiotig.

Rydym hefyd yn treialu camerâu sydd wedi eu gosod yn ein blychau lloea. Rydym yn anelu at roi cymorth i loea yng nghynt, os bydd angen, a ddim o gwbl os yw'n bosibl osgoi niwed, mae'r dystiolaeth yn dangos bod problemau wrth loea yn cael effaith ar ffrwythlondeb o hynny ymlaen. Trwy fonitro o bell gallwch gadw golwg fanwl ar y fuwch o unrhyw le (gan gynnwys fy ffôn) heb amharu ar y fuwch. Trwy hynny gallwch osgoi teithiau diangen i'r sied ac rydym yn monitro llawer mwy, ond yn amharu llawer llai ar fuchod a lloeau yn eu horiau cynnar.

**Geraint Thomas** - Ffermwr Arddangos Cyswllt Ffermio


**Cyswllt Ffermio**

Cofrestrwch ar gyfer y rhaglen heddiw!

08456 000 813

**https://businesswales.gov.wales/farmingconnect/cy/ffurflen-gofrestru-cyswllt-ffermio**






# Safle Arloesedd Glynllifon

## Moch cynhyrchiol a phroffidiol yn allweddol mewn uned foch newydd sbon ar Safle Arloesedd Cyswllt Ffermio

Yn dilyn cwblhau cyfleusterau moch newydd sbon yng Nglynllifon yn ddiweddar, mae'r prosiect Cyswllt Ffermio cyntaf bellach ar waith. Bydd y moch Pedigri Cymreig a moch hybrid Rattlerow Landroc a gedwir yn yr uned newydd yn cael eu gwerthuso o ran perfformiad a chynhyrchiant yn ystod prosiect Safle Arloesedd hir dymor.

Mae pob porchell yn derbyn tag EID ar enedigaeth, gan wneud y broses o gasglu data yn un syml a sydyn. Bydd pob porchell yn cael ei gysylltu â'r hwch gan ddefnyddio meddalwedd defaid cyffredinol Shearwell Data, sydd eisoes ar gael ar y safle.


Mae pwysau'r porchell ar enedigaeth, marwoldeb, materion iechyd, faint o fwyd a fwyteir a chynnydd pwysau yn ffactorau a fydd yn cael eu monitro yn ystod y prosiect gyda'r nod o ganfod y llinellau bridio mwyaf cynhyrchiol o fewn y cenfeintiau Pedigri Cymreig a Hybrid.

*"Bydd casglu'r data hwn yn ein galluogi i sicrhau'r perfformiad gorau gan y genfaint gan ddatblygu gwell dealltwriaeth o effaith geneteg ar nifer fawr o ffactorau gan gynnwys cynnydd pwysau byw dyddiol, effeithlonrwydd trosiant porthiant, a dyddiau hyd lladd,* meddai Rhodri Owen, Rheolwr Fferm yng Nglynllifon.


*"Byddwn yn defnyddio'r wybodaeth a gesglir wrth wneud penderfyniadau rheolaeth allweddol, er enghraifft wrth ddewis ein hychod banwes cyfnewid."*

O ganlyniad i'r prosiect hwn, mae Glynllifon yn gobeithio…


**1.**
Sicrhau cymhareb trosiant porthiant o **1.78** sydd ar hyn o bryd yn cael ei gyflawni gan genfeintiau yn y **10% uchaf** yn yr UE yn unig.




**2.**
Anelu at leihau'r gyfradd marw cyn diddyfnu o **12.5%** i dan **10%**.



**3.**
Gweld cynnydd o ddau fochyn ychwanegol yn cael eu gwerthu bob blwyddyn o bob hwch, gan arwain at gynydd o **£10,175** y flwyddyn mewn gwerthiant cig moch.



Bydd y prosiect yn darparu data gwaelodlin ar gyfer prosiectau eraill a fydd yn cael eu cynnal ar y safle yn y dyfodol agos. Bydd prosiect yn ymchwilio i botensial defnyddio'r brechlyn Improvac i wella lles, perfformiad ac ansawdd bwyta'r cig ar gyfer baeddod cyflawn wedi'u trin a heb eu trin yn dechrau ar y safle yn ystod gaeaf 2016.

Bydd Safleoedd Ffocws ledled Cymru yn arddangos prosiectau neu dreialon unigol yn ymwneud ag amrywiaeth o bynciau. Bydd canlyniadau a deilliannau'n prosiectau yn cael eu rhannu yn ystod digwyddiadau agored rheolaidd.

## FFERM LAN

Mae Fferm Lan, Cynwyl Elfed, Sir Gâr yn ffem ucheldir organig 172ha sy'n cadw 120 o wartheg duon Limousin yn cynhyrchu lloeau 10-14 mis i'w gwerthu. Rhoddir pwyslais ar wneud y defnydd gorau o borthiant a dyfir gartref gan gynnwys silwair meillion coch.

**Gwella effeithlonrwydd gwartheg sugno trwy sicrhau'r pwysau gorau ar gyfer y fuwch llawn dwf**

Nod y prosiect yw gwerthuso newidiadau ym mhwysau'r fuwch llawn dwf yn nhermau pwysau'r llo sy'n cael ei ddiddyfnu fel canran o bwysau'r fuwch. Mae hyn yn dilyn cefndir o newid o eneteg gynhenid i eneteg gyfandirol ynghyd â defnyddio teirw gydag EBV tyfiant uchel i gynhyrchu heffrod cyfnewid.

Casglwyd pwysau'r gwartheg a'r lloeau wrth ddiddyfnu ar Fferm Lan ar gyfer y pedair blynedd diwethaf fel rhan o brosiect Fferm Arddangos flaenorol, gan gynhyrchu'r canlyniadau canlynol hyd yn hyn:

EFFEITHLONRWYDD Y FUWCH *(Pwysau'r Llo fel % o Bwysau'r Fuwch)*

| | 2012 | 2013 | 2014 | 2015 |
|---|---|---|---|---|
| Lloia am y tro 1af | 50.8 (308) | 49.3 (303) | 48.7 (316) | 53.2 (316) |
| Lloia am yr 2il/3ydd gwaith | 55.2 (327) | 51.3 (308) | 46.5 (307) | 46.4 (307) |
| Gwartheg Hŷn | 51.2 (310) | 52.4 (312) | 52.7 (316) | 52.2 (319) |

Roedd cyfartaledd y fuches yn gyffredinol yn 50.9%. Mae'r ffigyrau mewn cromfachau'n dangos pwysau cyfartalog y llo wrth ddiddyfnu (cafodd y gwartheg a oedd yn lloia am y tro cyntaf eu diddyfnu/pwyso yn hwyrach).

Byddai pwysau llawn dwf îs yn arwain at lai o gostau cynnal ar gyfer y fuwch gan gynyddu effeithlonrwydd a phroffidioldeb. Mae'r data a gasglwyd hyd yn hyn yn dangos nad yw cadw buwch lai o faint bob amser yn arwain at gynhyrchu lloeau ysgafnach.

EFFEITHLONRWYDD Y FUWCH *(yn ôl band pwysau'r fuwch)*

| Gwartheg | Nifer | Pwysau Cyfartalog y Fuwch | % Effeithlonrwydd | Pwysau wrth Ddiddyfnu |
|---|---|---|---|---|
| < 550 | 7 | 525 | 55.8 | 293 |
| 551 – 600 | 19 | 583 | 53.6 | 313 |
| 601 – 650 | 14 | 623 | 52.3 | 326 |
| 651 – 700 | 13 | 672 | 47.2 | 317 |
| 701 – 750 | 6 | 721 | 43.8 | 316 |
| 751 - 800 | 3 | 775 | 42.1 | 321 |

| Lloia am y tro 1af | Nifer | Pwysau Cyfartalog y Fuwch | % Effeithlonrwydd | Pwysau wrth Ddiddyfnu |
|---|---|---|---|---|
| < 550 | 2 | 536 | 59.5 | 319 |
| 551 – 600 | 8 | 582 | 57.4 | 334 |
| 601 – 650 | 7 | 624 | 47.3 | 295 |

% effeithlonrwydd yw pwysau'r llo wrth ddiddyfnu wedi'i rannu gyda phwysau'r fuwch wrth ddiddyfnu.

**Bydd gwybodaeth ychwanegol a gasglwyd ac a ddadansoddwyd wrth gwblhau'r prosiect yn cynnwys:**

- Effaith lloia'n ddyflwydd oed o'i gymharu â thair oed ar faint y fuwch llawn dwf yn y pen draw
- Cofnodi sgôr cyflwr corff unigol mewn perthynas â bwlch lloia er mwyn canfod a yw gwartheg sy'n cynhyrchu'r lloeau trymaf yn gallu cynnal effeithlonrwydd atgynhyrchiol

Ymunwch â ni ar gyfer y digwyddiad

'CYNNAL EFFEITHLONRWYDD YN Y FUCHES SUGNO'

a gynhelir ar Fferm Lan

ddydd Mawrth 13eg Rhagfyr am 12:30yp

pan fyddwn yn trafod -

• Maint gorau posib ar gyfer y fuwch lawn dwf gan ddefnyddio canlyniadau diweddaraf y prosiect;

• Lloia heffrod yn 2 oed v 3 oed gan ddefnyddio data'r fferm ar gyfer gwanwyn 2016;

• Cynnal effeithlonrwydd atgynhyrchiol; a

• Phwysigrwydd rheoli heintiau wrth sicrhau'r cynhyrchiant gorau posib

Am fwy o fanylion ynglŷn â'r digwyddiad hwn, cysylltwch â

Delana Davies
01437 890233
delana.davies@menterabusnes.co.uk

# Lleihau BRD *(Afiechyd Resbiradol Buchol)* mewn lloeau ifanc dan do



**Y brif fenter ar Llindir gan y brodyr Arfon a Gerallt Jones yw magu lloeau dan do yn ddwys i'r fasnach bîff, gyda 1,400 o loeau yn mynd trwy'r busnes yn flynyddol. Bydd y lloeau yn cyrraedd yr uned yn 3-6 wythnos oed ac yn cael eu magu nes y byddant tua 150kg cyn eu symud i uned besgi.**

Daw'r lloeau o nifer o unedau o bob rhan o'r Deyrnas unedig, ac fe'u profir am BVD (Diarrhoea Feirol Buchol) trwy ddefnyddio'r dull tagio a phrofi. Er gwaethaf y safonau uchel o ran lles ar yr uned, oherwydd natur y fenter, mae'r enghreifftiau o niwmonia yn uwch nag y byddid yn ei ddymuno.

Trwy hwsmonaeth ragorol ynghyd â dadansoddi manwl ar faint o laeth a yfir gan bob llo unigol gellir canfod yr anifeiliaid sy'n dioddef yn gyflym iawn ac maent yn cael eu trin yn ôl hynny gan arwain at fenter effeithlon iawn.

Er gwaethaf y perfformiad da hwn, roedd y brodyr Jones yn chwilio am welliannau pellach o ran cynnydd mewn pwysau byw dyddiol a lleihau eu costau milfeddygol a meddyginiaeth, yn enwedig o ran defnyddio gwrthfiotig.

Un o'r arbenigwyr sy'n ymwneud â'r prosiect hwn yw'r milfeddyg Dai Grove White a grŵp o fyfyrwyr ar eu blwyddyn olaf ym Mhrifysgol Lerpwl ac mae wedi bod yn monitro iechyd y lloeau trwy ddefnyddio adnodd sgorio BRD (Afiechyd Resbiradol Buchol) a ddatblygwyd gan Brifysgol Wisconsin. Mae'r adnodd wedi canfod nifer o loeau y mae'r afiechyd yn effeithio ychydig arnynt na fyddid wedi eu canfod fel arall, gan nad oes unrhyw arwyddion gweledol clir. Er gwaethaf yr heintiad ysgafn, cred Dai y bydd perfformiad lloeau o'r fath yn dioddef, gyda gostyngiad sylweddol mewn cynnydd pwysau dyddiol a thrwy hynny leihau effeithlonrwydd yn y busnes.

Yn yr un modd â'r rhan fwyaf o faterion iechyd, mae atal yn well bob amser, ac i'r graddau hyn bydd y prosiect yn gwerthuso'r defnydd o bro-biotig a ychwanegir at laeth fel dull o leihau dibyniaeth ar wrthfiotig. Mae'r amgylchedd i'r lloeau hefyd yn ffactor allweddol o ran BRD, ac o ystyried hyn tynnwyd y milfeddyg Sara Pederson sy'n arbenigo mewn dylunio adeiladau i mewn i'r cynllun i edrych ar beth y gellir ei wneud i wella'r siediau eto.

*"Ni ellir gorbwysleisio pwysigrwydd dwyster stocio a dyluniad yr adeilad wrth leihau amlygrwydd BRD mewn lloeau ifanc. Mae ymchwil y Dairyland Initiative yn awgrymu y dylid darparu targed o 2.8m2 o ardal welltog i bob llo ac o leiaf 18m3 o ofod o ran aer. Bydd hyn, ynghyd â chyflenwad cyson a pharhaus o awyr iach heb ddrafft yn lleihau'r her BRD y bydd y lloeau ifanc yn ei wynebu'n sylweddol."*



# Swyddogion Technegol

## Catherine Nakielny - Swyddog Technegol Cig Coch *(Canolbarth Cymru)*



Mae Catherine wedi bod â rhan amlwg yn ffermio fferm ddefaid y teulu yn Nhalyllychau, ger Llandeilo ar hyd ei hoes. Mae'n parhau i weithio ar y fferm 400 erw ac mae'n dweud mai hi yw'r bos pan ddaw yn fater o drafod yr 800 o famogiaid Cymreig croes! Allan y mae'r mamogiaid yn ŵyna ym mis Ebrill ac mae mwy o bwyslais yn cael ei roi ar wella'r glaswelltir a phori cylchdro. Mae'r gyfradd fagu ŵyn ar gyfartaledd yn 150% i'r mamogiaid ac mae'r ŵyn benyw yn cael eu troi at yr hwrdd y rhan fwyaf o flynyddoedd. Tyfir swêj a chnydau porthiant fel porthiant gaeaf gyda silwair i'r defaid sy'n cael eu gaeafu allan ar rannau uchaf y fferm.

Astudiodd Catherine wyddor anifeiliaid ym Mhrifysgol Aberystwyth, ac yna PhD mewn bridio defaid. Ar ôl gorffen ei PhD bu'n gweithio i gwmni bridio defaid am bum mlynedd, yna fel ymgynghorydd defaid annibynnol am saith mlynedd, gan barhau i gymryd rhan flaenllaw ar y fferm deuluol.

Cwblhaodd Catherine Ysgoloriaeth Ffermio Nuffield yn 2011 ar wella effeithlonrwydd cynhyrchu ŵyn, gan deithio i Iwerddon, Seland Newydd ac Awstralia, ac mae hefyd yn aelod o Undeb Amaethwyr Cymru a'r Gymdeithas Ddefaid Genedlaethol.

Penodwyd Catherine yn Swyddog Technegol Cig Coch Cyswllt Ffermio dros Ganolbarth Cymru ym mis Hydref 2016, yn ystod cyfnod mamolaeth Lisa Roberts.

### Meysydd arbenigedd Catherine:

- Rheoli llyngyr
- Magu defaid
- Cynllunio iechyd
- Dangosyddion perfformiad allweddol
- Dadansoddi cost-mantais

# Adnodd Mesur i Reoli ar-lein Cyswllt Ffermio

Mae Cyswllt Ffermio yn lansio agwedd newydd ac arloesol tuag at feincnodi ar gyfer busnesau fferm yng Nghymru. Mae'r rhaglen 'Mesur i Reoli' yn galluogi busnesau i gofnodi data perfformiad presennol a hanesyddol a chymharu eu perfformiad gyda busnesau eraill tebyg yn ogystal â meincnodi eu perfformiad yn erbyn data Arolwg Busnes Fferm Prifysgol Aberystwyth.

Bydd yr adnodd Mesur i Reoli ar-lein ar gael i bob busnes sydd wedi cofrestru gyda Cyswllt Ffermio, a bydd y rhai sy'n aelodau o grwpiau trafod Cyswllt Ffermio yn cael mynediad at gefnogaeth ar-fferm er mwyn cwblhau'r broses o gasglu'r data.

Trwy fewnbynnu'r data i'r adnodd Mesur i Reoli ar-lein, byddwch yn gallu mesur eich perfformiad yn erbyn Dangosyddion Perfformiad Allweddol gan gynnwys:

- Elw Gros *(fesul ha a fesul mamog/buwch)*
- Allbwn y ddiadell/y fuches
- Costau amrywiol
- Costau porthiant


Bydd yr adnodd ar-lein hefyd yn eich galluogi i asesu a chymharu eich perfformiad yn erbyn:

- Perfformiad hanesyddol eich fferm
- Aelodau eraill o'r grŵp
- Y 10% uchaf o ran perfformiad
- Ffigyrau Arolwg Busnes Fferm

Bydd cymharu yn erbyn y meini prawf yma yn eich galluogi i adnabod cryfderau a gwendidau penodol yn eich busnes ac i ganfod meysydd i wella fel eich bod chi fel busnes yn gallu gwneud cynnydd neu barhau i fod ymysg y 10% uchaf.

Am fwy o fanylion a chymorth gyda'r adnodd Mesur i Reoli ar-lein, cysylltwch â'ch Swyddog Datblygu lleol. Mae manylion cyswllt ar gael yma **https://businesswales.gov.wales/farmingconnect/cy/eich-swyddog-datblygu-lleol**

Neu fel arall, os byddwch yn mynychu'r Ffair Aeaf, galwch heibio i stondin Cyswllt Ffermio i roi cynnig ar yr ar yr adnodd Mesur i Reoli ar lein eich hun.






# 5 DEWIS I BESGI ŴYN

Yn Aberbranddu, ger Pumsaint, Sir Gaerfyrddin, mae Irwel Jones yn gwerthu 800 o ŵyn y flwyddyn i Dunbia ar ôl eu pesgi ar laswellt wedi ei ail-hadu ac adlodd silwair gyda pheth dwysfwyd, rhwng Medi a diwedd Tachwedd. Profwyd pum system besgi ar gyfer prosiect newydd ac i werthuso perfformiad yr ŵyn a'u heffeithiolrwydd o ran costau ar gyfer y fferm ucheldir 850 erw.

Mae'r prosiect yn cymharu 310 o ŵyn gwryw, sydd wedi eu rhannu yn bum grŵp cyfartal y cyfan â chyfartaledd pwysau o tua 32kg, i'w pesgi mewn pum system wahanol:

- Cymysgedd o rêp porthiant a Rhygwellt Eidalaidd
- Glaswellt wedi ei ail-hadu o'r newydd
- Hen wndwn yn unig
- Hen wndwn a dwysfwyd
- Dwysfwyd dan do

*"Rydym am besgi ŵyn yn gyflymach ar bwysau trymach, felly bydd yn ddiddorol cymharu'r gwahanol ddewisiadau a gweld pa un sy'n helpu'r ŵyn i berfformio orau,"* dywedodd Irwel.

*"Ond, rhaid i gost y dull pesgi hefyd gael ei gyfiawnhau. Un o'n prif nodau yw dibynnu llai ar borthiant wedi ei brynu i mewn, felly trwy wneud y prosiect hwn gallaf roi gwerth ar ffyrdd gwahanol o besgi a bod yn ffyddiog ein bod yn defnyddio'r dull gorau i ni yn y dyfodol."*

Dechreuodd y prosiect yn gynnar ym mis Medi a bydd yr ŵyn yn cael eu pwyso bob pythefnos hyd at eu pesgi erbyn diwedd Tachwedd. Bydd y prosiect yn cofnodi'r nifer o ddyddiau hyd eu pesgi, y kg o gig oen a werthir i bob hectar, cyfanswm y dwysfwyd a ddefnyddiwyd, unrhyw broblemau iechyd a'r holl gostau a'r elw ar y buddsoddiad.

Dywed yr ymgynghorydd defaid blaenllaw Lesley Stubbings bod rhaid i ffermwyr ystyried eu dewisiadau yn ofalus wrth besgi ŵyn, gan sicrhau nad ydynt yn cael effaith ar y cnwd o ŵyn y flwyddyn nesaf.

*"Ni all ffermwyr fforddio gadael i ŵyn ddwyn y borfa sydd ar y mamogiaid ei angen i ddod i'r cyflwr iawn i fynd at yr hwrdd. Bydd hyn yn effeithio, nid yn unig ar ganran sganio'r ddiadell, ond bydd hefyd yn cael effaith yn y pen draw ar dyfiant ŵyn y flwyddyn nesaf,"* meddai Lesley.

*"Y lle gorau i ddechrau arni yw pwyso'r ŵyn sydd ar ôl, penderfynu faint o bwysau y mae angen iddynt ei ennill a chyfateb hynny â beth sydd ar gael. Efallai y bydd rhaid gwneud y penderfyniad, i ddiogelu'r ddiadell o famogiaid, i werthu rhai ŵyn yn stôr, yn hytrach na dod â nhw i mewn a'u pesgi ar ddwysfwyd. Fel rheol fras, erbyn yr hydref, o dybio eu bod yn iach, mae ar ŵyn angen 7-8kg o borthiant am bob kg a enillir, felly ar £200 y dunnell, bydd hyn yn costio 150-160c yr oen am bob kg a enillir."*

Cynhelir diwrnod agored yn **Aberbranddu, Cwrt y Cadno, Pumsaint** ar **14 Rhagfyr 1yp-3yp** i rannu'r canlyniadau, mae croeso i bawb.

Am fwy o fanylion cysylltwch â
**Menna Williams - 07399 600146**
menna.williams@menterabusnes.co.uk



## Defnyddio technoleg i ganfod cloffni yn gynnar

Mae cloffni'n broblem sy'n costio'n ddrud ar ffermydd llaeth, a gall wneud buwch yn fwy agored i broblemau eraill. Mae AHDB Llaeth yn amcangyfrif bod chwarter y gwartheg llaeth yn y fuches genedlaethol yn cael eu heffeithio gan gloffni ac mae symudedd yn dod yn fwy a mwy pwysig i gwsmeriaid. Mae cloffni hefyd yn un o'r problemau lles mwyaf gweledol, gan effeithio ar ddelwedd cyffredinol y diwydiant llaeth.

Mae cloffni, sydd fel arfer yn ymateb i boen, yn achosi newid yn y ffordd y mae buwch yn symud, a gellir ei asesu'n rhwydd ac mewn modd cost effeithiol ar y fferm trwy sgorio symudedd (neu ymsymudiad). Gall canfod y problemau'n fuan leihau eu difrifoldeb, felly mae sgorio symudedd yn rheolaidd yn cael ei ystyried yn arfer dda, er ei fod yn gallu bod yn oddrychol ac yn cymryd amser.

Gallai technoleg chwarae mwy o rôl wrth sgorio symudedd yn y dyfodol. Ar Safle Arloesedd Trawscoed, mae system 'Matrics Camau' wedi cael ei osod er mwyn mesur grym a'r cyfeiriad y mae'r carn yn ei wynebu wrth i wartheg adael y parlwr. Mae hyn yn galluogi dadansoddiad dyddiol o'r data, canfyddiad cynharach o newidiadau mewn ymsymudiad a monitro gwelliant.

Pan fo gwartheg yn wynebu heriau iechyd, mae eu hymddygiad yn newid. Gellir hefyd defnyddio technoleg GPS i fonitro newidiadau mewn ymddygiad sy'n nodi cloffni cyn unrhyw newid gweledol yng ngherddediad y fuwch. Mae technoleg yn cael ei ddefnyddio'n gyffredin mewn buchesi a gedwir dan do ar gyfer monitro nodweddion ffrwythlondeb ac iechyd, ond mae'n llai cyffredin yn y fuches sy'n pori. Bydd prosiect Cyswllt Ffermio'n cael ei gynnal trwy gydol tymor pori 2017 i fonitro a gwerthuso ymddygiad gwartheg yn wyddonol i archwilio dulliau o ganfod cloffni ynghynt. Bydd technoleg GPS yn cael ei ddefnyddio i werthuso newidiadau yng nghyfran yr amser sy'n cael ei dreulio'n arddangos tair math o ymddygiad - pori, gorffwys a cherdded. Bydd patrymau'n cael eu datblygu a gellir ystyried unrhyw wyriad o'r hyn a ystyrir yn 'arferol' fel arwydd cynnar o gloffni. Cadwch lygad am ddiweddariadau i'r prosiect technegol ynghyd â phrosiectau eraill sy'n dechrau yn ystod gwanwyn 2017.

Mae mwy o wybodaeth hefyd ar gael ar ein gwefan, gan gynnwys ffilm fer yn ymwneud â thriniaeth dermatitis digidol, arfer gorau o ran golchi traed a negeseuon allweddol eraill gan yr arbenigwr milfeddygol, Sara Pedersen. www.llyw.cymru/cyswlltffermio



# Cynhyrchwyr wyau Agrisgôp

Mae cydweithrediad a gweledigaeth wedi cynorthwyo i sicrhau dyfodol hyfyw ar gyfer pedair fferm deuluol Cymreig, sydd wedi buddsoddi cyfanswm o £3 miliwn yn arallgyfeirio i gynhyrchu wyau maes.



Roedd cynhyrchu wyau maes yn cynnig opsiwn ymarferol i ddatblygu mentrau a fyddai'n gallu cynhyrchu incwm cynaliadwy ar gyfer y teuluoedd, gyda phob un yn y camau cychwynnol o ddatblygu eu syniadau busnes pan wnaethon nhw ymuno â grŵp Agrisgôp Cyswllt Ffermio dan arweiniad Elaine Rees Jones.

Mae Arwel a Delyth Jones yn ffermio fferm Parc, uned 56 erw yn Llangwm, ger Cerrig y Drudion, Conwy. Mae ganddynt ddiadell o 100 o famogiaid, ond roeddent yn chwilio am fenter a fyddai'n galluogi un ohonynt i weithio ar y fferm ar sail llawn amser. Mae Delyth wedi gadael ei swydd er mwyn rhedeg eu huned 16,000 o ieir, a ddisgwylir i fod yn weithredol ym mis Tachwedd.

Ar fferm Rhallt Ycha yn Llanfair Caereinon, Powys, gadawodd Daniel Bates ei swydd fel agronomegydd er mwyn gweithio gyda'i wraig ar eu huned 32,000 o ddofednod. *"Bydd y fenter hon yn ein galluogi i gynnal y fferm at y dyfodol,"* meddai Daniel.

Bu'r grŵp yn gweithio ar holl agweddau eu mentrau newydd gyda'i gilydd ac yn rhannu manylion ynglŷn â materion megis trafod gyda banciau, sicrhau cytundebau, dewisiadau offer ac argaeledd contractwyr adeiladu.

Mae Elaine Jones a'i phartner, Robert Corfield, wedi sefydlu uned 32,000 o ddofednod ym Mron y nant, Trefeglwys, Powys, ac mae Julian ac Emma Morris yn aros am ganlyniad apêl cynllunio cyn y gellir dechrau ar y gwaith adeiladu ar eu daliad 40 erw yn Nyffryn Ceiriog ger Llangollen.

*"Cynhyrchu wyau yw'r unig fenter ymarferol y byddem yn gallu ei gynnal ar gyn lleied o erwau, a dyma ein cyfle cyntaf i'w droi'n ôl yn fferm weithredol,"* meddai Julian.

Os oes gennych chi ddiddordeb sefydlu grŵp Agrisgôp, cysylltwch â Cyswllt Ffermio ar **08456 000813** am fanylion Arweinwyr Agrisgôp yn eich ardal.

# GWEDDILLION TREULIAD ANAEROBIG FEL BIOWRTAITH


Mae'r gweddillion yn sgil-gynnyrch o dreuliad anaerobig, ac mae prosiect Safle Arddangos diweddar ar fferm Newton Farm, Scethrog, Aberhonddu wedi bod yn cymharu'r defnydd o weddillion hylifol gyda defnyddio gwrtaith cyfansawdd.

Daeth y gweddillion a ddefnyddiwyd ar gyfer y prosiect, sy'n seiliedig ar fwyd domestig, o safle Bryn Pica, bedair milltir o Aberdâr, yn ne Cymru. Roedd cynnwys maeth y gweddillion (yn yr un termau â gwrtaith) yn NPK 111:20:41, ac fe wasgarwyd y cynnyrch ar leiniau 0.5h gan ddefnyddio plât tasgu, system 'trailing shoe' a chwistrellwr disg ar gyfradd o 9.11t/erw. Gwasgarwyd gwrtaith cyfansawdd ar gyfradd o 8t/erw (mae'n bwysig nodi bod y llain a dderbyniodd y gwrtaith wedi derbyn 1.11t/erw yn llai o faethynnau.)

Cofnodwyd twf y glaswellt bob wythnos dros saith wythnos ac roedd y canlyniadau fel a ganlyn:

**Twf Glaswellt**

Mesurwyd tyfiant y glaswellt gan ddefnyddio mesurydd plât sy'n codi unwaith yr wythnos ar bob llain, a gellir gweld y canlyniadau isod.




| | 26 Gorff | 11 Awst | 18 Awst | 25 Awst | 01 Medi | 07 Medi | 12 Medi |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Control | 1552 | 1756 | 1827 | 1927 | 2215 | 2365 | 2440 |
| Trailing Shoe | 1552 | 2177 | 2302 | 2790 | 3002 | 3440 | 4014 |
| Disc Inj | 1552 | 2065 | 2265 | 2715 | 3227 | 3665 | 4295 |
| Splash Plate | 1552 | 1865 | 2015 | 2365 | 2627 | 3265 | 3692 |
| Fertiliser | 1552 | 2065 | 1990 | 2327 | 2752 | 3490 | 4084 |

FARMING connect
cyswllt FFERMIO

Gan ddefnyddio prisiau cyfartalog gwrtaith ar gyfer eleni, roedd y gwahaniaeth o ran costau rhwng gwrtaith a gweddillion treuliad anaerobig yn sylweddol -

Costau gwrtaith (9.11t/erw) -

N= 111uned @28.5c/uned= £31.64

P= 20uned @ 27c/uned= £5.40

K= 41 uned @ 20.5c/uned= £8.40

Cyfanswm cost gwrtaith cyfansawdd = **£45.40** o faethynnau/erw (heb gynnwys costau gwasgaru)

Costau gweddillion anaerobig- £2/tunnell wedi'i wasgaru @ 9.11t/erw = **£18** o faethynnau/erw

Mae gweddillion treuliad anaerobig wedi cael ei brofi i fod yn opsiwn ymarferol i ffermwyr yn y dalgylch, gan nid yn unig fod yn economaidd o'i gymharu â gwrtaith cyfansawdd, ond mae hefyd yn cynorthwyo i adfer y broses naturiol o ailgylchu ac yn ailgylchu maethynnau prin megis ffosfforws. Yn ail, mae defnyddio gweddillion treuliad anaerobig yn hytrach nag ambell wrtaith synthetig sy'n deillio o nwyon naturiol yn gallu arbed ynni, lleihau defnydd o danwydd ffosil a lleihau ein hôl troed carbon.

Mae'n bwysig iawn i gofio bod angen defnyddio cynnyrch gweddillion treuliad anaerobig mewn modd synhwyrol a chynaliadwy oherwydd eu cynnwys uchel o ran maeth, fel y cafodd ei amlygu gan Charlie Morgan, arbenigwr pridd a glaswellt annibynnol, yn ystod cyfarfod agored ar fferm Newton Farm.

*"Pe byddem yn defnyddio'r cynnyrch hwn bob dydd ar ein caeau pori, byddai ein lefelau ffosffad a photash yn mynd dros y mynegai gofynnol, felly mae'n hanfodol ein bod yn cynnal profion ar y pridd ac yn trafod faint o weddillion treuliad anaerobig yr ydym yn ei ddefnyddio,"* meddai Mr Morgan.

Wrth gael cynnig gweddillion treuliad anaerobig, mae'n hollbwysig bod ffermwyr yn edrych ar lefelau maeth y cynnyrch gan fod y lefelau'n amrywio'n ddramatig mewn ymateb i'r math o fewnbwn a ddefnyddir (e.e. tail, cnydau wedi'u tyfu'n bwrpasol, gwastraff domestig ayyb). Unwaith y bydd y statws maeth wedi'i ganfod, mae'n rhaid cyfateb y cyfraddau gwasgaru gyda lefelau maeth y pridd.

## CYFOETH NATURIOL CYMRU

*"Mae ein hadnoddau naturiol yn dod dan straen gynyddol ac mae'n rhaid i ni eu defnyddio mewn modd mwy cynaliadwy. Mae'r Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol a gyhoeddwyd yn ddiweddar yn adrodd y gallai rheoli ein priddoedd a'n defnydd tir yn fwy effeithiol atgyfnerthu ein hadnoddau naturiol".*

*"Er mwyn sicrhau ein bod yn gwneud y defnydd gorau o'n hadnoddau naturiol a'n priddoedd, rydym hefyd yn argymell y dylai ffermwyr samplu eu priddoedd yn rheolaidd. Bydd y dadansoddiad hwn yn darparu gwybodaeth hanfodol ynglŷn â chynnwys maeth gwaddodol y pridd fel y gellir targedu unrhyw faeth ychwanegol a roddir i ymateb i ofynion y cnwd"*

Pan fydd yn cael ei ddefnyddio'n gywir, mae gweddillion treuliad anaerobig yn enghraifft dda o reolaeth adnoddau cynaliadwy.

# DIGWYDDIADAU

| DYDDIAD | DIGWYDDIAD | AMSER | LLEOLIAD | CYSWLLT |
|---|---|---|---|---|
| **23/11/16** | Gweithdy Cloffni | 10:30 – 14:30 | Llanina Arms, Llanarth, SA47 0NP | **Eleri Jewell** 07985 379887 eleri.jewell@menterabusnes.co.uk |
| **24/11/16** | Cymhorthfa Marchnata ac Arallgyfeirio | 09:00 – 17:00 | Wolfcastle Hotel, Hwlffordd, SA62 5LZ | **Catrin Lloyd** 02920 467418 catrin.lloyd@menterabusnes.co.uk |
| **24/11/16** | Winter beef rationing | 14:00 – 17:00 | Neuadd Goch, Adfa, Drenewydd, SY16 3DE | **Catherine Nakielny** 01970 631406 catherine.nakielny@menterabusnes.co.uk |
| **24/11/16** | Moch Cynhyrchiol – gwella perfformiad a gwneud y mwyaf o enillion | 11:00 – 15:00 | Safle Glynllifon, Ffordd Clynnog, Caernarfon, LL54 5DU | **Gwawr Hughes** 07896 996841 gwawr.hughes@menterabusnes.co.uk |
| **24/11/16** | Lleihau defnydd o wrthfiotigau mewn buchesi godro | 10:30 – 15:00 | Nant Goch, Pen y Bont Croesoswallt, SY10 9JG | **Gwenan Ellis** 07866 547894 gwenan.ellis@menterabusnes.co.uk |
| **06/12/16** | Maeth bîff a rhagolwg o'r diwydiant | 12:30 - 14:30 | Blaencwmpridd, Synod Inn, Llandysul, SA44 6JP | **Menna Williams** 07399 600146 menna.williams@menterabusnes.co.uk |
| **06/12/16** | Cymhorthfa Marchnata ac Arallgyfeirio | 09:00 – 17:00 | Gŵyr | **Catrin Lloyd** 02920 467418 catrin.lloyd@menterabusnes.co.uk |
| **07/12/16** | Gweithdy Cynllunio Busnes | 09:00 – 17:00 | Broneirion Limited, Llandinam, Powys, SY17 5DE | **Catrin Lloyd** 02920 467418 catrin.lloyd@menterabusnes.co.uk |
| **09/12/16** | Gweithdy Cynllunio Busnes | 09:00 – 17:00 | Galeri, Caernarfon, LL55 1SQ | **Catrin Lloyd** 02920 467418 catrin.lloyd@menterabusnes.co.uk |
| **12/12/16** | Cymhorthfa Marchnata ac Arallgyfeirio | 09:00 – 17:00 | Rhuthun | **Catrin Lloyd** 02920 467418 catrin.lloyd@menterabusnes.co.uk |
| **13/12/16** | Cynnal effeithlonrwydd yn y fuches fagu | 12:30 | Lan Farm, Cynwyl Elfed, Caerfyrddin, SA33 6SP | **Delana Davies** 01437 890233 delana.davies@menterabusnes.co.uk |
| **14/12/16** | Opsiynau Gorffen Ŵyn | 13:00 - 15:00 | Aberbranddu, Cwrt y Cadno, Pumsaint | **Menna Williams** 07399 600146 menna.williams@menterabusnes.co.uk |
| **15/12/16** | Gweithdy Cynllunio Busnes | 09:00 – 17:00 | Hotel Mariners, Mariners Square, Hwlffordd, SA61 2DU | **Catrin Lloyd** 02920 467418 catrin.lloyd@menterabusnes.co.uk |